
# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Sylfaen Genedlaethol mewn Cerddoriaeth Lefel 3



**Yn gryno**

Mae’r cwrs yma yn cwmpasu amrywiaeth eang o berfformio, cyfansoddi, recordio a hanes cerddoriaeth.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Oes gennych gariad at gerddoriaeth

... Oes gennych ddiddordeb mewn gyrfa gerddorol neu swydd yn y celfyddydau perfformiadol

... Ydych yn frwd dros fod yn greadigol!

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Bydd gennych fynediad i theatr o’r radd flaenaf gyda chyfleusterau sain a goleuo a ddefnyddir yn ystod eich gweithdai a’ch nosweithiau cerddorol. Byddwch yn defnyddio ein cyfresi Mac

gan redeg Logic X ar gyfer dilyniant a'n stiwdio recordio bwrpasol ar gyfer y recordio demo hollbwysig.

Byddwch yn ymarfer, trefnu a pherfformio mewn 3 digwyddiad cerddorol o bwys gydol y flwyddyn. Bydd eich sgiliau fel cerddor ac fel aelod o dîm yn cael eu datblygu a'u herio.

Mae astudio yn cynnwys:

Technegau perfformio cerddoriaeth
Sesiynau ac Arddulliau Cerddorol
Y diwydiant cerdd
Trefnu a chyfansoddi
Cyfrifiaduron a cherddoriaeth
Technegau recordio sain
Hanes cerddoriaeth boblogaidd
Sain ar gyfer delweddau symudol

Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus, trwy aseiniadau ymarferol yn bennaf, gyda gwaith ysgrifenedig yn ategu'r sgiliau a ddatblygir gan fyfyrwyr cerdd a byddwch yn cyflawni:

Lefel 3 mewn Cerddoriaeth

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i hybu eich set sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn cofrestru, bydd angen o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch arnoch, gan gynnwys naill ai Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, neu gymhwyster Diploma Lefel 2 gyda Theilyngdod a TGAU Gradd C neu uwch mewn Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Mae ymroddiad llwyr i bresenoldeb yn ofynnol, ynghyd â pharch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc, hunanysgogiad, gallu creadigol ac awydd i lwyddo.

Mae'n rhaid i chi allu chwarae offeryn a chynghorir lleiswyr i allu chwarae, neu fynd ati i ddysgu chwarae, offeryn

Coleg Gwent

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd cwblhau cwrs y flwyddyn gyntaf yn llwyddiannus yn eich galluogi i symud ymlaen i'r ail flwyddyn a chwblhau'r diploma estynedig llawn.

Oddi yno, mae llwybrau dilyniant yn cynnwys mynediad i H.E. neu'r cymhwyster BA Cynhyrchu Sain ac Ysgrifennu Caneuon 3 blynedd newydd (Ar gael ar Gampws Crosskeys) neu Gyrsiau HND mewn Celfyddydau Perfformio, Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth, neu Gyflogaeth fel Perfformiwr/Technegydd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Fel rhan o'r gofynion mynediad bydd disgwyl i chi fynychu sesiwn brofi lle byddwch yn cymryd rhan mewn clyweliad.